Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 24 Mehefin 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | L James | P K Jones |
| D W W Thomas | I E Mann | B J Rowlands |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Clive Lloyd | Aelod y Cabinet dros Berfformiad Busnes a Thrawsnewid |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams, M H Jones a/ac J W Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

2 **Ethol Cynullydd Panel**

- Etholwyd y Cynghorydd Chris Holley fel Cynllunydd y Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod - 2019/20

3 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

4 **Cofnodion**

- Cymeradwywyd

5 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

6 **Cylch gorchwyl.**

- Cymeradwywyd

7 **Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Defnydd Llywodraeth Leol o Ddata - Ymateb a Chynllun Gweithredu**

- Gall sicrhau cydymffurfiad â GDPR fod yn anodd ond mae'r tîm yn gwneud gwaith gwych
- Mae rhannu data rhwng adrannau wedi bod yn her
- Gall barnau cyfreithiol ar arweiniad fod yn wahanol, hyd yn oed rhwng cynghorau ond mae gwaith i'w wneud o hyd
- Ni chaiff data ei rannu rhwng adrannau oni bai fod pobl yn rhoi caniatâd clir - mae'r adrannau yn gweithio ar hyn.
- Caiff 'data' ei ddefnyddio i olygu rhifau a gwybodaeth
- Ymagwedd gorfforaethol - ystyried rhoi cyfrif i bobl y gallant ei ddiweddaru
- Gall cwsmeriaid gysylltu â'r cyngor i ddarganfod sut caiff eu gwybodaeth ei defnyddio
- Mae'r adroddiadau'n casglu sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cyngor yn canolbwyntio ar y materion sy'n pryderi bobl
- Mae technoleg yn symud ymlaen a gellir defnyddio data anhysbys i ddatblygu aps i helpu gyda chynllunio a defnyddio'r gyllideb
- Mae gan y cyngor berthynas dda â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth geisio cymorth ac arweiniad. Darparwyd swm sylweddol o hyfforddiant
- Mae hyfforddiant a datblygiad yn barhaus, ac mae gwersi'n cael eu dysgu'n gyson
- Mae penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn rhan o'r cynlluniau tymor hir a gallent ddarparu adroddiadau trawsbynciol yn y dyfodol
- Bydd y Cynllun Gweithredu, sy'n ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn dod gerbron y panel yn y chwarter nesaf
- Dylai defnyddio gwybodaeth yn effeithiol helpu i leihau seilos rhwng adrannau
- Ymholiadau ynghylch tai a phriffyrdd yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol
- Ymholiad ynghylch diffiniadau a sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheoli eu gwybodaeth
- Ymholiad ynghylch sut mae'r cyhoedd yn defnyddio gwefan y cyngor a sut yr eir ati i ymgynghori trwy'r wefan
- Ymholiad ynghylch am sut y mae ystadegau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro
- Gallai Swyddfa Archwilio Cymru wedi disgwyl gweld strategaeth data benodol ar wahân ar y wefan ond mae un Abertawe ymhlith strategaethau eraill

- Ystyried creu un strategaeth gorfforaethol drosgynnol. Mae gan y cyngor gofnod o Fframwaith Rheoli Gwybodaeth yn barod.

8 **Adolygiad Diwedd Blwyddyn**

- Roedd y panel yn hapus â'r gwaith a gyflawnwyd y llynedd ac maent am ailadrodd nifer o'r un eitemau

9 **Cynllun Gwaith 2019-20**

- Hoffai'r panel weld eitem sy'n canolbwyntio ar y swyddogaeth gynllunio'n gyffredinol - heb gynnwys ceisiadau neu'r pwyllgor

**Llythyr at Aelod y Cabinet**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am

**Cadeirydd**